



10.02.2022

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

Erthygl i'r Wasg Press Release

Croeso i Gymru – sut beth yw ceisio lloches yng Nghymru heddiw?

Mae Joseph, Raman, Niloha a Mohammed yn bedwar unigolyn sydd wedi gorfod ffoi o'u cartrefi am godi llais. Nos Sul am 9.00 ar S4C, maen nhw'n cael cyfle i adrodd eu stori yn eu geiriau eu hunain.

Yn dilyn ymlaen o'r gyfres boblogaidd ar S4C, **Efaciwîs - Plant y Rhyfel**, mae'r rhaglen ddogfen, **DRYCH: Lloches**, yn edrych ar y sefyllfa i geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru heddiw. Clywn o lygad y ffynnon sut beth yw adeiladu bywyd a hunaniaeth newydd mewn gwlad wahanol, pa gefnogaeth sydd ar gael ac a oes y fath beth â chroeso unigryw Cymreig?

"Dwi dal yn cofio'r diwrnod oedd rhaid i fi adael. Oedd gadael fy nghartref a gadael fy nheulu y peth anoddaf dwi erioed wedi gwneud," meddai Joseph. Ers ffoi o Arfordir Ifori, mae Joseph wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd ac wedi dysgu Cymraeg. Yn fwy diweddar, mae wedi gallu cynnig cartref diogel i'w blant sydd nawr wedi dod i fyw gydag e.

Mae Joseph yn llawn gobaith, ond mae hefyd yn myfyrio ar adegau brawychus ei fywyd, gan ddweud: "Ti byth yn anghofio'r gorffennol, dyw e byth yn mynd i ffwrdd yn llwyr."

Ar adeg y ffilmio, mae Raman wedi bod yng Nghymru ers blwyddyn a dau fis. Roedd yn un o'r ceiswyr lloches Cwrdaidd a leolwyd mewn hen wersyll milwrol ym Mhenalun, Sir Benfro. Daeth y gwersyll i sylw'r newyddion gyda honiadau o amodau byw gwael a nifer yn protestio am well cyfleusterau i'r ceiswyr lloches. Nid pawb oedd yn gefnogol.

"Rwyf wedi ymladd dros ryddid ar hyd fy oes," meddai Raman. "Felly, i ddiweddu fyny mewn gwersyll gyda weiren bigog, gatiâu a walïau, ffensys, gwarchodwyr diogelwch - mae'n anghredadwy".

"Un o'r pethau cyntaf a welais oedd aelodau o'r asgell dde eithaf yn protestio, gan ddweud 'Ewch yn ôl adre'. Pe bai gen i gartref i fynd iddo, byddwn i'n mynd yn ôl. Mae'n deimlad mor ofnadwy darganfod nad oes neb eich eisiau chi'n rhywle pan nad oes gennych chi unrhyw le arall i fynd".

Mae stori Raman yn amlygu arwyddocâd cymorth arbenigol ar adegau o ansicrwydd.

"Mae'n anodd disgrifio beth yw bod yn geisiwr lloches, oherwydd nid yw'n hunaniaeth. Gan fod cymaint o gestyll yng Nghymru, weithiau byddaf yn disgrifio fy sefyllfa fel rhywun sy'n dod o hyd i gastell yng nghanol y goedwig. Mae yna fywyd a golau a chynhesrwydd y tu mewn ond does neb yn mynd i agor y drws na'r ffenestr i chi. Felly rydych chi'n aros yn daer am rywun i roi help llaw i chi, i'ch helpu chi.



"Ond dwi'n hapus i ddweud fod gen i lawer o ffrindiau nawr, maen nhw'n ffenestr sydd ar agor yn y castell yma i mi."

Mae nifer o asiantaethau a sefydliadau wedi ymrwymo i helpu. Yn rhan o'r cydweithrediad yma, buodd yr Urdd, mudiad ieuenctid mwyaf Cymru, yn un sefydliad a gynigodd gefnogaeth hanfodol yn ddiweddar drwy ddarparu llety dros dro i deuluoedd yn ffoi Afghanistan. Buon nhw hefyd yn cefnogi Cyngor Caerdydd i ddysgu Cymraeg i'r plant a chynnig amgylchedd chwarae diogel.

Meddai Mabli Jones o Asylum matters: "Be da ni'n gweld yw bod lot o'r gefnogaeth sydd ar gael i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn dod gan bobl yn eu cymunedau nhw. Felly gwirfoddolwyr, mudiadau bach, capeli a mosgiau - mae lot o gefnogaeth allan na gan bobl sydd wir eisiau croesawu ffoaduriaid a galluogi nhw i setlo yn eu cymunedau."

Cawn hefyd glywed hanes Niloha, Meddyg o Venezuela, sy'n gweithio ar ffyrdd i ganiatáu iddi ymarfer meddygaeth yng Nghymru. Mae Mohammed o Afghanistan wedi llwyddo i sefydlu ei fusnes ei hun yn llwyddiannus yng Nghaerdydd ac yn gyffrous am y posibilrwydd y bydd ei fab newydd-anedig yn dysgu Cymraeg.

"Does neb yn gadael cartref hapus heb reswm da," meddai Joseph. "Gall eich sefyllfa newid dros nos. Gall ddigwydd i unrhyw un ohonom. A dyw bywyd byth yr un peth eto."

DRYCH: Lloches

Nos Sul 20 Chwefror, 9.00

Isdeitlau Saesneg

Ar S4C Clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill

Cynhyrchiad Wildflame ar gyfer S4C

Nodiadau i olygyddion

- **Efaciwis - Plant y Rhyfel** - Cyfres S4C lle cafodd wyth o blant o rai o ddinasoedd mwyaf Lloegr – Lerpwl, Birmingham a Llundain – brofiad o fywyd fel faciwis o'r Ail Ryfel Byd yng ngogledd Cymru. Ar gael i'w wylïo ar S4C Clic ac iPlayer.



10.02.2022

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

Erthygl i'r Wasg Press Release

Croeso i Gymru - the people seeking refuge in Wales today

Joseph, Raman, Niloha and Mohammed are four individuals, all forced to flee their homes for speaking out. On Sunday at 9.00 on S4C, they have the chance to tell their stories in their own words.

Following on from the popular S4C series, **Efaciwîs - Plant y Rhyfel**, the documentary, **DRYCH: Lloches**, looks at the lives of asylum seekers and refugees in Wales today. We hear first-hand what building a new life and identity in a different country is like, what support is on offer and is there such a thing as an uniquely Welsh welcome?

"I still remember the day I had to leave. Leaving home and leaving my family was the hardest thing I've ever done," says Joseph. Originally from the Ivory Coast, Joseph is now settled in Cardiff, speaks fluent Welsh and more recently has been able to welcome his children to the city and offer them a safe home.

Joseph is full of hope, but he also reflects on the terrifying times of his life, saying: "You never forget the past, it never goes away completely."

At the time of filming, Raman, has been in Wales for one year and two months. He was one of the Kurdish asylum seekers placed in a disused Army camp in Penally, Pembrokeshire. The camp made the news with allegations of poor living conditions and many protesting for better facilities for the asylum seekers. Some however, were not so supportive.

"I fought for freedom all my life. Ending up in a camp with barbed wire, gates and walls, fences, security guards - it's unbelievable," says Raman.

"One of the first things I saw was some far-right people protesting, saying 'get back to your house'. If I had a home to go to, I would go back. It's such a terrible feeling to find out you're not wanted somewhere and you don't have any other place to go".

Raman's story highlights the significance of specialist support in times of uncertainty.

"It's hard to describe what it is to be an asylum seeker because it is not an identity. There are so many castles in Wales, so sometimes I describe my situation like someone who finds a castle in the middle of the forest. There is life and light and warmth inside but nobody is going to open the door or a window for you. So, you are desperately waiting for someone to give you a hand, to help you.

"But I'm happy to say I have many friends now - they are a window that is open in this castle for me."



Several agencies and organisations are committed to help. As part of this cooperation, The Urdd, the largest youth organisation in Wales, was one organisation who offered vital support by providing temporary accommodation for families seeking refuge from Afghanistan recently. They also supported Cardiff Council in providing the opportunity for the children to learn Welsh and play in safe surroundings.

Mabli Jones from Asylum Matters notes the importance of both formal and informal support: "A lot of the support comes from people in their communities. So volunteers, small organizations, chapels and mosques so there's a lot of help from people who really want to welcome refugees and enable them to settle in their communities."

We also hear from Niloha, a Doctor from Venezuela, who is working on ways to allow her to practice medicine in Wales. Mohammed from Afghanistan has successfully set up his own business in Cardiff and is excited about the prospect of his new-born son learning Welsh.

"Nobody leaves a happy home without good reason," said Joseph. "Your situation can change overnight. It can happen to any of us. And life is never the same again."

DRYCH: Lloches

Sunday, 20 February, 9.00

English subtitles available

On S4C Clic, BBC iPlayer and other platforms

A Wildflame production for S4C

Notes for editors:

- **Efaciwîs: Plant y Rhyfel** is an S4C series where eight children from some of England's biggest cities – Liverpool, Birmingham and London – experienced life as Second World War evacuees in north Wales. Available to watch on S4C Clic and iPlayer.